PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 8 Mehefin, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Cynghorydd S.J. Griffiths (Cadeirydd); Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr Ms. J. Aviet, O. Griffiths, T.H. Jarvie, Mrs. R. Nugent-Finn a J.W. Thomas.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Aelod ac Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio), B.T. Gray (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd) a K.F. McCaffer (Aelod Cabinet dros Hamdden, y Celfyddydau a Diwylliant).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd Mrs. J.E. Charles.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. CYFLWYNIAD: CYMORTH PERSONOL DEALLUS – DEFNYDDIO TECHNOLEG PRIF FFRWD I WELLA BYW'N ANNIBYNNOL –

ARGYMHELLIR – Diolch i Gynrychiolwyr Innovate Trust am eu cyflwyniad llawn gwybodaeth a'u gwaith cydweithredol parhaus mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg.

Rheswm dros yr amgymhelliad

Cynghori Aelodau'r Pwyllgor ar y gwaith amhrisiadwy a wnaed gan Innovate Trust i rymuso a chynyddu annibyniaeth i unigolion ag anabledd dysgu sy'n byw ym Mro Morgannwg.

EITEM AGENDA 5. DIWEDDARIAD GWASANAETHAU TELEOFAL (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r gwaith hyd yma'r Gwasanaeth Teleofal a'i waith yn y dyfodol, fel y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad.

(2) Bod y Pwyllgor Craffu yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y Gwasanaeth Teleofal bob mis Mai.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod ar heriau, cyfleoedd a chyfeiriad strategol Gwasanaeth Teleofal Cyngor Bro Morgannwg.

(2) Cadw'r Aelodau'n ymwybodol o waith y Gwasanaeth Teleofal ac Adolygiad Rheoli'r Gwasanaeth Teleofal.

EITEM AGENDA 6. DIWEDDARIAD CHWARAEON A CHWARAE (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi gwaith Tîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae'r Cyngor, fel y'i cynhwysir yn yr adroddiad.

(2) Cyflwyno Adroddiad Blynyddol pellach ar weithgareddau Tîm Chwaraeon a Datblygu Chwarae'r Cyngor i'r Pwyllgor i'w ystyried ym mis Mehefin 2022.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod ar waith presennol ac amhrisiadwy Tîm Chwaraeon a Datblygu Chwarae'r Cyngor yn ystod y pandemig cenedlaethol.

(2) Rhoi diweddaraf i'r Pwyllgor am waith Tîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae'r Cyngor.